# COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener, 24 Mai 2002 | |
| **Amser:** | 10.00am hyd 12.50pm | |
| **Lleoliad:** | Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro. | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| | Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| | Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| | Edwina Hart | Gyr |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| **Cyflwynwyr:** | Amelia John | Pennaeth Datblygu Polisi, Y Comisiwn Hawliau Anabledd, Cymru |
| | Brian Barrows | Pennaeth Swyddfa Ynni Awdurdod Datblygu Cymru |
| | Peter Guest | Rheolwr Cyffredinol, Canolfan ECO Gorllewin Cymru |

| | |
|---|---|
| Nic Wheeler | Swyddog y Parc Cenedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| David Fletcher | Swyddog Cyllid Datblygu'r Amgylchedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Cymorth Pwyllgorau |
| Gareth John | Cymorth Pwyllgorau |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

| | |
|---|---|
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Andrew Davies | Gorllewin Abertawe |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Croesawodd y Cyng Leslie Raymond, Arweinydd Cyngor Sir Penfro, y Pwyllgor i Neuadd y Sir ac i Sir Benfro.

**Eitem 2: Materion Anabledd**

2.1. Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem wedi'i rhoi ar yr agenda ar gais Edwina Hart, y Gweinidog sy'n gyfrifol am gyfle cyfartal, a oedd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor. Roedd y pwyllgorau rhanbarth eraill hefyd wedi trafod y materion.

2.2. Rhoddodd Amelia John, Swyddog Polisi gyda'r Comisiwn Hawliau Anabledd, gyflwyniad i'r

Pwyllgor, ac mae copi ohono ynghlwm fel atodiad.

2.3. Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau, dywedodd

- Roedd gan un o'r Comisiynwyr anawsterau dysgu. Roedd y Comisiwn wedi sefydlu is-grp ar anableddau dysgu gydag ymgynghorwyr.
- Roedd y Comisiwn Hawliau Anabledd am gynyddu ei waith maes ond roedd wedi cyrraedd cap ar ei wariant. Roedd gwaith maes wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig yng Ngogledd Cymru lle'r oedd y Comisiwn yn cyflogi swyddog maes.
- Mewn ardaloedd eraill roedd cyfarfodydd wedi cael eu trefnu i wneud pobl yn ymwybodol o'r Comisiwn, ond roedd yna anawsterau i ganfod lleoliadau hygyrch.
- Roedd y Comisiwn wedi ymrwymo i gynnwys pob plentyn mewn addysg brif ffrwd, ond roedd angen cael trafodaeth yngln â'r cymorth a'r adnoddau sy'n ofynnol, yn cynnwys defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.
- Roedd y Comisiwn yn lobïo'r llywodraeth am ddeddfwriaeth dynnach ar drafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl. Ar hyn o bryd nid oedd dyddiad wedi ei bennu y mae'n rhaid cadw ato o ran gwneud cerbydau yn hygyrch.
- Roedd y Comisiwn yng Nghymru wedi ymrwymo i ddwyieithrwydd, yn arbennig o ran gwneud y sefydliad yn fwy hygyrch.
- Roedd y Comisiwn yn gweithio gyda CADW i wneud rhagor o adeiladau cyhoeddus yn hygyrch. Roedd yna broblemau yn dal i fod gyda rhai adeiladau newydd, ond erbyn hyn mae'n rhaid i gynllunwyr gynnwys mynediad a chyfleusterau digonol yn eu cynlluniau.
- Roedd y Comisiwn yn codi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau sydd gan gyflogwyr, ac yn annog awdurdodau lleol i gyflogi Swyddogion Mynediad.

2.4. Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd wedyn i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.

2.5. Croesawai **Ron Griffiths** y drafnidiaeth gyhoeddus a oedd yn cael ei darparu am ddim i'r henoed bellach, ond nid oedd bob amser yn hygyrch i bobl mewn cadeiriau olwyn. Dylai trafnidiaeth gymunedol i bobl anabl fod am ddim hefyd.

2.6. Derbyniai Edwina Hart fod yna broblem gyda thrafnidiaeth gyhoeddus i'r anabl, ond roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu grant trafnidiaeth. Roedd Fforwm Trafnidiaeth Cymru yn edrych ar faterion mynediad.

2.7. Galwodd y **Cyng B. Morse, Cyngor Tref Abergwaun**, am i Drecwn fod yn ganolfan i'r anabl yng Ngorllewin a De Cymru. Dywedodd hefyd ei bod yn amhosibl i bobl anabl fynd o amgylch Abergwaun.

2.8. Dywedodd **cynrychiolydd o NCH** fod plant anabl yn aml iawn yn gorfod teithio'n bell i ysgolion prif ffrwd sydd â chyfleusterau digonol. Canlyniad hyn oedd nad oeddent yn cael eu cynnwys yn eu cymunedau eu hunain.

2.9. Holodd **Justin Walker, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd a Phort Talbot**, a oedd Aelodau'r Cynulliad yn derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb i'r anabl.

2.10. Dywedodd Edwina Hart fod llawer o'r Aelodau wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb yn eu swyddi blaenorol ac y byddai Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Cabinet yn cael yr hyfforddiant hwn yn y dyfodol. Roedd Aelodau a fu'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus wedi cael hyfforddiant.

2.11. Holodd **Bob Hathel** a ddylai'r Cynulliad roi canllawiau i'r awdurdodau lleol i sicrhau eu bod i gyd yn darparu'r un lefelau gwasanaeth i bobl anabl. Dywedodd Mr Hathel fod awdurdodau lleol yn amrywio o ran y gefnogaeth a roddir i addysg plant anabl.

2.12. Dywedodd y Cadeirydd fod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol am y gwasanaethau a ddarparant.

2.13. Dywedodd Edwina Hart, y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chyllid, fod y grant cymorth refeniw yn cael ei dalu fel bloc i lywodraeth leol a bod yr awdurdodau lleol yn atebol i'r etholwyr am eu gwariant.

2.14. Holodd **Carol Thomas-Wyllie, Cymdeithas y Clefyd Niwronau Motor**, pa gamau oedd yn cael eu cymryd i gynyddu nifer y niwrolegwyr yng Nghymru a sut y gallai'r Cynulliad sicrhau bod pobl sydd â’r clefyd yn cael eu nodi fel pobl y mae angen iddynt allu cyrchu ar frys at ofal integredig o ansawdd uchel oddi wrth yr holl asiantaethau.

2.15. Dywedodd Brian Gibbons, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fod cynlluniau cyflym i addasu'r cartref wedi cael eu cyflwyno fel y gellid rhyddhau pobl o'r ysbyty yn gyflym. Cyflwynwyd pecyn gofal rhad ac am ddim gartref am chwe wythnos i bobl hn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

2.16. Dywedodd **Cecily Stevens** fod ganddi ffrind anabl mawr na allai gael ei gadair olwyn i mewn i doiledau Sir Benfro ac y gwrthodwyd cadair hybu iddo.

2.17. Dywedodd Helen Mary Jones fod y Gweinidog Iechyd wedi comisiynu adolygiad o'r ddarpariaeth cadeiriau olwyn.

2.18. Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd i adael eu henw a'u cyfeiriad gyda staff y pwyllgor os oeddent am gael ymateb pellach i'w cwestiynau gan y Gweinidog priodol.

**Eitem 3: Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru: Ynni Adnewyddadwy**

3.1 Amlinellodd Christine Gwyther, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd, y cefndir i'r adolygiad yr oedd y Pwyllgor yn ei gynnal. Roedd rhan gyntaf yr adolygiad yn ymdrin ag ynni adnewyddadwy ac roedd Pwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad yn trafod yr adroddiad cyntaf fel rhan o'r

broses ymgynghori. Cydnabyddid bod hwn yn faes polisi nad oedd ond wedi ei ddatganoli'n rhannol, ond gallai fod gan y Cynulliad Cenedlaethol rôl bwysig yn caboli'r datblygu yng Nghymru. Cydnabyddid hefyd fod hwn yn faes lle'r oedd yna gyfleoedd i greu swyddi a datblygu'r economi yng Nghymru. Cafwyd ymateb da i'r ymgynghori hyd yma. Roedd yr angen i edrych ar y broses gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd, a'r materion yn ymwneud â chyllid ar gyfer prosiectau newydd, ill dau yn feysydd y tynnwyd sylw atynt wrth i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gymryd tystiolaeth.

3.2 Rhoddodd **Brian Barrows, Pennaeth Swyddfa Ynni Awdurdod Datblygu Cymru,** gyflwyniad ar allu'r De-orllewin i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Roedd De Cymru yn cynhyrchu llai o ynni nag a ddefnyddiai, tra'r oedd y Gogledd yn cynhyrchu mwy nag oedd ei angen arno. Nid yw per dros ben o Ogledd Cymru ar gael yn uniongyrchol i'r De oherwydd natur dwyrain – gorllewin y rhwydwaith trawsyrru.
- Roedd ynni adnewyddadwy yn cyfrannu tua 3.5% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru yn flynyddol. Yn y De-orllewin mae llai na 8 MW o ddarpariaeth ynni adnewyddadwy wedi'i sefydlu. Roedd yna botensial o 74 – 104 MW o ynni adnewyddadwy yn y De-orllewin, yn cynrychioli 7 – 10% o 4 TWh/blwyddyn, un o'r targedau a awgrymwyd yn yr adroddiad ymgynghori. Ynni gwynt alltraeth fyddai'r elfen fwyaf yn hyn. Roedd yna botensial i ddatblygu ynni adnewyddadwy uwchlaw'r lefelau amcanol.
- Cyfyngir ar ddatblygu ynni gwynt ar y tir yn Ne-orllewin Cymru am fod Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol mor agos.
- Roedd yna gyfleoedd i greu ynni o Fiomas oherwydd gallai cyflenwadau coed dros ben yn Ne-orllewin Cymru o felin bapur Shotton gynnal gwaith cynhyrchu mewnol, a gallai yntau yn ei dro ysgogi Coedlannu Cylchdro Byr.
- Dim ond cyfraniad bach y gallai ynni dr ei wneud, ond ni ddylid ei ddiystyru. Nid oedd ynni o'r llanw ond yn dechrau cael ei ddatblygu. Roedd cyfleoedd yn dod i'r amlwg hefyd yn y broses o gynhyrchu hydrogen.

3.3 Gwnaeth **Peter Guest, Rheolwr Cyffredinol, Canolfan ECO Gorllewin Cymru,** y pwyntiau canlynol:

- Gellid ehangu'r gwasanaethau cynghori a ddarperir ar hyn o bryd gan Ganolfan Cyngor Ynni y Canolbarth a'r De-orllewin ac Asiantaeth Ynni Powys o dan yr enw "REAL Cymru", ar y cyd â phartneriaid mewn rhannau eraill o Gymru, i ddarparu rhwydwaith o ganolfannau cynghori ledled Cymru ar ddatblygu ynni adnewyddadwy.
- Nid oedd y canolfannau hyn yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na'r Awdurdod Datblygu. Roeddent yn darparu cyngor cyson ar ynni adnewyddadwy ar draws Cymru, a châi ei anelu at unigolion, grwpiau cymuned a busnesau bach na fyddai'r gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Datblygu Cymru neu Rwydwaith Arena yn eu cyrraedd efallai.
- Câi Ynni Adnewyddadwy ei ddefnyddio yn yr ardaloedd lle cynhyrchir ef. Gallai ardaloedd lleol yn arbennig elwa o'i natur leol, o bosibl drwy ynni rhatach.
- Nid Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yw'r mesur gorau o gyfraniad ynni adnewyddadwy tuag at yr economi, yn nhermau datblygu cynaliadwy. Roedd mesuriadau eraill yn fwy priodol.

- Ni ddylid diystyru systemau solar a solar thermol domestig. Systemau ar raddfa fach ydynt yn ôl eu natur, ond unwaith y maent wedi'u gosod mae'r gost fesul uned ynni yn sero. Pe câi'r 100 fwy neu lai o unedau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer De-orllewin Cymru eu cyflwyno hefyd ledled y wlad, byddent yn arwain at ostyngiad sylweddol yn yr ynni a ddefnyddir. Ni ddylid ychwaith diystyru ynni gwynt domestig ar raddfa fach.

3.4 Gwnaeth **Nic Wheeler, Swyddog y Parc Cenedlaethol a David Fletcher, Swyddog Cyllid Datblygu'r Amgylchedd, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro,** y pwyntiau canlynol:

- Roedd paragraff 5.6 o'r adroddiad ymgynghori yn gywir a dylid rhoi rheolaeth dros benderfyniadau yngln â datblygu prosiectau ynni ar raddfa fawr i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Gallai ynni adnewyddadwy ddarparu swyddi a helpu i gadw cymunedau yn gynaliadwy.
- Dylai'r cynllun torri coed mewn modd cynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gyda Chyllid Datblygu'r Amgylchedd, gael ei ymestyn ar draws Cymru gyfan gan y Comisiwn Coedwigaeth er mwyn rhoi hwb cychwynnol i'r diwydiant biomas.
- Roedd yn rhaid cyfathrebu â'r cyhoedd a'i addysgu os oedd ynni adnewyddadwy i gael ei wthio yn ei flaen. Roedd yn rhaid hefyd wrth ewyllys wleidyddol o du Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.5 Mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, gwnaeth Brian Barrows y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Mae datblygiadau ynni ar raddfa fawr yn cael eu gyrru a'u hariannu yn fasnachol fel arfer. Ar wahân i ddarparu'r seilwaith corfforol a datblygiadol, nid oedd gan yr Awdurdod Datblygu na Llywodraeth Cynulliad Cymru fewnbwn uniongyrchol.
- Gweithiai'r Awdurdod Datblygu yn agos gydag Ystadau'r Goron a'r Adran Diwydiant a Masnach i restru safleoedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt alltraeth, ac roedd yn gobeithio datblygu clwstwr o gynhyrchwyr diwydiant gwynt yng nghyffiniau Caergybi.
- Drwy ddatblygu gweithfeydd cynhyrchu biomas bach, gellid defnyddio'r coed dros ben nad oes eu hangen mwyach ym melin Shotton gan greu marchnad i goedlannu cylchdro byr. Roedd coedlannu cylchdro byr yn dal i ddibynnu ar grantiau, ond byddai marchnad yn rhoi hwb gychwynnol iddo.
- Roedd yr Awdurdod Datblygu yn cynghori Is-adran Arloesi a Thwf Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Geisiadau Ynni Adnewyddadwy o dan Amcan 1 a theimlid y byddai nifer y ceisiadau yn cynyddu. Roedd yr Awdurdod Datblygu yn niwtral yngln â lleoliad prosiectau ynni adnewyddadwy ac edrychai ar bob un ar ei haeddiant.
- Roedd technolegau nwyeiddio a phyrolysis i greu ynni o fiomas gwastraff yn dechnolegau newydd ond teimlid bod yna bosibiliadau i'w datblygu'n eang iawn. Mae i ynni llanw hefyd botensial i'w ddatblygu ond nid oedd yn dechnoleg aeddfed.

3.6. Ychwanegodd Peter Guest fod:

- Y cyngor ar ynni adnewyddadwy y mae canolfan ECO Gorllewin Cymru ac eraill yn ei roi yn dibynnu ar dderbyn cyllid. Roedd yna gryn lawer o gyd-drefnu rhwng y cyrff partner yn REAL

Cymru ynghyd â chyswllt parhaus gyda chyrff eraill megis Dulas Cyf. Gellid hwyluso hyn yn well gyda chyllid oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol.
- Câi cyngor REAL Cymru ei anelu at ddefnyddwyr domestig a chymunedau, busnesau bach a ffermydd, tra'r oedd rhwydwaith Arena yn anelu at fusnesau bach a chanolig eu maint.

3.7. Gwnaeth David Fletcher a Nic Wheeler y pwyntiau ychwanegol canlynol mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau:

- Roedd Cronfa Datblygu Rhanbarthol yr Amgylchedd o dan Amcan 1 wedi helpu tuag at brosiectau arddangos, ond mae'n cymryd amser i sicrhau cyllid cyfatebol. Cafwyd oedi ar un prosiect biomas am y rheswm hwn.
- Roedd prosiectau ynni adnewyddadwy yn wynebu nifer o anawsterau ar wahân i sicrhau cyllid cyfatebol wrth wneud cais am gyllid Amcan 1, yn cynnwys yr integreiddio â ffynonellau cyllido eraill, cyrchu at gymorth technegol, a'r anhawster a gaiff prosiectau preifat i gyrchu at gyllid.
- Ni fyddai cwtogi'r broses gynllunio o reidrwydd yn help i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy.
- Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio gwybodaeth leol a gallai fod o fudd yn helpu i ledaenu cyngor ar ynni adnewyddadwy.
- Nid oes yna farchnad i goedlannu cylchdro byr ar hyn o bryd ac mae angen edrych ar hynny.
- Nid oedd yr awdurdodau lleol wedi cael eu cynnwys ar grp cyfeirio'r adolygiad ynni.

3.8. Eglurodd Christine Gwyther fod cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystod yr adolygiad er nad oedd yr awdurdodau wedi'u cynnwys ar grp cyfeirio'r adroddiad ymgynghori ar ffynonellau ynni adnewyddadwy.

3.9. Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i roi cwestiynau a sylwadau i'r Pwyllgor.

3.10. Dywedodd **Gordon James, Asiantaeth Ynni Sir Benfro** fod yna botensial enfawr i brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn Sir Benfro, pe gellid goresgyn y problemau cynllunio a'r gwaith papur cysylltiol. Roedd cost gyfalaf gychwynnol prosiectau yn rhwystr arall. Roedd angen strategaeth i wthio ynni adnewyddadwy yn ei flaen ac, er mwyn hwyluso hyn, dylid sefydlu asiantaeth ynni adnewyddadwy annibynnol i Gymru.

3.11. Dywedodd **Chris Jessop, ymgynghorydd ynni**, fod allyriannau nwyon t gwydr yn dal i gynyddu, ar adeg pan ddylent fod yn cael eu torri'n ddirfawr. Dylid tywys mathau eraill o ynni adnewyddadwy yn eu blaen, megis:

- cynlluniau gwres a pher cyfun lleol, ar raddfa fach, yn defnyddio coed fel tanwydd;
- pympiau gwres o ffynonellau tanddaearol, technoleg a ddefnyddir yn eang yn yr Iseldiroedd;
- gwres a pher cyfun sy'n defnyddio biswail fferm;
- ynni gwynt ar raddfa fach, yn defnyddio 1 neu 2 dyrbin.

Cododd gwestiynau yngln â'r gost o fewnforio tanwydd neu ynni i Gymru.

3.12. Dywedodd yr **Athro Arthur Thomasson, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – cangen Sir Benfro**, fod Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn erbyn datblygu rhagor i dyrbinau gwynt ar y tir. Roedd yr Ymgyrch o blaid ynni adnewyddadwy, ond tybiai y byddai'n ddoethach gosod targedau ar gyfer 2020 na 2010, gan y byddai graddfa amser hwy yn rhoi mwy o gyfle i osod targedau lleol. Pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthwynebu datblygiad Cefn Croes o ddifrif, ni fyddai wedi cael ei gymeradwyo.

3.13. Anogodd y **Cyng Brian Morse** y dylai'r depo ordnans segur yn Nhrecwn gael ei ddefnyddio fel safle i brosiectau ynni adnewyddadwy.

3.14. Dywedodd **Arthur Stevens** fod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i effeithlonrwydd ynni.

3.15. Ymysg y pwyntiau eraill a godwyd gan y cyhoedd dywedwyd nad yw ynni adnewyddadwy yn ffynhonnell ddibynadwy a bod y Trefniadau Newydd ar Werthu Trydan yn cosbi ffynonellau adnewyddadwy yn ormodol.

**Eitem 4 : Cofnodion y Cyfarfod ar 15 Mawrth 2002**

4.1. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ohebiaeth a dderbyniodd oddi wrth Ysgol Gyfun Bro Myrddin ynghylch y modd y cafodd eu sylwadau eu hadlewyrchu yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth. Câi'r cofnodion eu newid yn unol â hynny.

**Eitem 5: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ac Ethol Cadeirydd**

5.1. Cymeradwyodd yr Aelodau yr adroddiad blynyddol drafft.

5.2. Enwebodd Cynog Dafis Val Lloyd fel Cadeirydd am y flwyddyn i ddod ac eiliwyd hyn gan Delyth Evans. Nid oedd ymgeiswyr eraill a chafodd Val Lloyd ei hethol.

5.3. Diolchodd Val Lloyd i Rhodri Glyn Thomas a thalodd deyrnged iddo am y ffordd yr oedd wedi cadeirio'r Pwyllgor.